

Chwiliwch am adfeilion Maenor yr As Fawr

Fel rydych chi wedi'i ddyfalu efallai, mae'r enw Saesneg yn cyfeirio at gysylltiadau hanesyddol y pentre â mynachod Cristnogol. Ar un adeg, roedd y tir yma yn perthyn i faenor – fferm oedd yn cael ei rhedeg gan fynachod i ddarparu bwyd a nwyddau eraill i fynachlog.

Y fferm fwyaf cyfoethog roedd y fynachlog yng Nghastell-nedd yn berchen arni oedd maenor y mynachod yn yr As Fawr. Roedd yn cynnwys cannoedd o erwau o'r tir amaeth gorau yng Nghymru! Tyfodd y faenor i fod fel tre fach, gyda llawer o wahanol adeiladau dan ofal y mynachod a lle bydden nhw'n byw.

Tafarn y *Plough and Harrow* bellach yw un o'r adeiladau hyn, sy'n hawdd cael hyd iddo yng nghanol y pentre. Gallwch chi hefyd ddarganfod adfeilion adeiladau eraill gerllaw oedd yn eiddo i'r faenor ar un adeg. Faint gallwch chi gael hyd iddyn nhw?

Yr eglwys: Ychydig i'r dwyrain o'r *Plough and Harrow*.

Yr eglwys yw lle byddai'r mynachod wedi mynd i weddio, fel arfer ar ddechrau ac ar ddiwedd y gwaith caled y bydden nhw'n ei wneud ar y fferm bob dydd.

Llety a'r Coleg: Fan hyn y byddai'r mynachod wedi bwyta, cysgu ac astudio. Gallwch chi gael hyd i'r adeiladau hyn i'r gogledd-orllewin o'r dafarn, ym mhentre Brychdwn. (Adeiladau preswyl ydyn nhw erbyn hyn, felly rhaid parchu'r bobl sy'n byw yno wrth edrych ar eu cartrefi.)

Gefail: Ychydig i lawr y lôn i'r gorllewin o'r dafarn. Byddai hon wedi cael ei defnyddio i gynhyrchu eitemau metel – offer i'w defnyddio ar y fferm, er enghraifft.

Gweithdy saer: I'r chwith o'r dafarn. Fel yr efail, byddai hwn wedi cael ei ddefnyddio i gynhyrchu offer, celfi a deunyddiau adeiladu i helpu i gynnal a chadw'r fferm.

Pyllau brithyllod, colomendy ac adeiladau anifeiliaid: Gallwch gael hyd i'r adfeilion hyn y tu ôl i'r dafarn a bydden nhw'n cael eu defnyddio i gadw pysgod, adar ac anifeiliaid i'w bwyta.

Ysgubor y degwm: I'r chwith o'r dafarn gallwch weld gweddillion yr adeilad enfawr hwn wedi'i guddio dan eiddew – mor fawr oedd e nes bod digon o le yn y porth yn unig i godi tŷ modern erbyn heddiw! Roedd ysgubor y degwm yn cael ei defnyddio i storio cynnyrch oedd yn cael ei roi i'r Eglwys. Byddai ffermydd lleol yn rhoi 10% o'u cynnyrch blynyddol i'r Eglwys drwy ddod ag e i ysgubor y degwm, lle byddai'n cael ei storio.

ARFORDIR TREFTADAETH
MORGANNWG
GLAMORGAN
HERITAGE COAST

